# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 22 Hydref 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 236(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog (5 munud)

Dechreuodd yr eitem am 14.51

**NNDM7169 Rebecca Evans (Gŵyr)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i), 12.22 (i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er

mwyn caniatáu i NNDM7170 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn heddiw, 22 Hydref 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Diweddariad ar Brexit (TYNNWYD YNOL)

(45 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Pwysau Iach-Cymru Iach

(45 munud)

**Dogfen Ategol**

Pwysau Iach-Cymru Iach

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddiogelwch Adeiladau

(45 munud)

**Dogfennau Ategol**

Newidiadau arfaethedig i wella diogelwch adeiladau preswyl uchel

## 6 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020-2025

(45 munud)

## 7 Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

(15 munud)

**NDM7163** - Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Hydref 2019.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 8 Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

(15 munud)

**NDM7164** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Hydref 2019.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 9 Dadl o dan Reol Sefydlog 25.15 ar Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2019 – Gohiriwyd tan 6 Tachwedd 2019

(0 munud)

**NNDM7170**

**Rebecca Evans (Gŵyr)**

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn peidio â chytuno i Fil y Cytundeb Ymadael, fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin, gael ei wneud yn ddeddf gan Senedd y DU.

2. Yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29 i gynorthwyo'r Cynulliad i roi ystyriaeth ffurfiol i gydsyniad maes o law.

Bil y Cytundeb Ymadael (Saesneg yn unig)

## 10 Dadl: Brexit

(90 munud)

**NNDM7170**

**Rebecca Evans (Gower)**
**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn peidio â chytuno i Fil y Cytundeb Ymadael, fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin, gael ei wneud yn ddeddf gan Senedd y DU.

2. Yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29 i gynorthwyo'r Cynulliad i roi ystyriaeth ffurfiol i gydsyniad maes o law.

Withdrawal Agreement Bill (Saesneg yn unig)

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 – Darren Millar**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod pobl Cymru wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mehefin 2016.

2. Yn nodi bod Llywodraeth Ei Mawrhydi wedi sicrhau bargen gyda'r Undeb Ewropeaidd a fydd yn galluogi Cymru, a gweddill y Deyrnas Unedig, i adael ar 31 Hydref 2019.

3. Yn gresynu at yr effaith andwyol y bydd oedi ac ansicrwydd pellach yn ei chael ar fusnesau Cymru, y sector cyhoeddus a sefydliadau anllywodraethol eraill.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi Llywodraeth y DU wrth iddi geisio deddfu i sicrhau bod y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd erbyn 31 Hydref 2019.

5. Yn credu, pe na bai'r Cytundeb Ymadael yn cael cefnogaeth Senedd y DU, y dylid cynnal etholiad cyffredinol yn y DU.

**Gwelliant 2 - Neil McEvoy**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, os bydd Bil y Cytundeb Ymadael yn arwain at Brexit heb gytundeb, y dylid cynnal refferendwm ar sofraniaeth genedlaethol Cymru.

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 23 Hydref 2019